# Rhagair

Fel Comisiynydd y Gymraeg, mae'n bleser i mi gyflwyno'r Polisi Gorfodi diwygiedig hwn, sy'n adlewyrchu ein dull newydd o gyd-reoleiddio a'n ffocws cynyddol ar ddeilliannau rheoleiddio.


Mae'r dull newydd hwn yn seiliedig ar egwyddorion cydweithredu a phartneriaeth, gan weithio'n agos gyda sefydliadau; nid yn unig i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ond hefyd cynnydd yn nefnydd y gwasanaethau hynny.

Mae'r polisi diwygiedig hwn yn cynrychioli cam pwysig ymlaen yn ein hymdrechion i sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn parhau i gael eu parchu a'u gweithredu'n effeithiol ledled Cymru. Ein nod yw creu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac mae'r polisi hwn yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth, yn ogystal â'r camau gorfodi a allai cael eu cymryd lle bo angen gwneud hynny.

Rydym yn canolbwyntio'n fwyfwy ar ddeilliannau rheoleiddio, gan sicrhau bod ein hymdrechion yn arwain at ganlyniadau pendant a chadarnhaol i siaradwyr Cymraeg. Mae'r polisi hwn yn nodi ein hymrwymiad i dryloywder, tegwch, a chysondeb wrth weithredu ein dyletswyddau gorfodi.

Rwy'n annog pob sefydliad i gydweithio â ni yn y broses hon, gan ein bod yn credu'n gryf y gallwn, gyda'n gilydd, greu Cymru lle gall y Gymraeg gael ei defnyddio ymhob agwedd o'n bywyd bob dydd.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus.





**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

